| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 27 Tachwedd 2023 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw hwyluso trafodaeth ac adborth ar y meysydd o fewn cylch gwaith y pwyllgor, ac i gadarnhau eitemau rhaglen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. A yw'n briodol i'r pwyllgor adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol ym mhob cyfarfod. Gall yr eitemau canlynol fod yn briodol (nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn):

- Hyfforddiant a datblygu aelodau
- Trefniadau cefnogi er mwyn i aelodau gyflawni eu rolau
- Cefnogaeth ar gyfer swyddogaeth Graffu y Cyngor
- Adolygu'r adnoddau sydd ar gael i aelodau (er enghraifft, llety a thechnoleg)
- Mentrau, deddfwriaeth ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar faterion democratiaeth leol, gan gynnwys amrywiaeth, cydraddoldeb a chyfranogi
- Tâl Aelodau

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad hwn ac yn cadarnhau ei raglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Roedd adroddiad ar ‘Bolisi Hyfforddiant Gorfodol i Gynghorwyr’ wedi’i gynnwys yn y rhaglen waith ar gyfer y cyfarfod heddiw ond nid yw’r gwaith paratoi ar gyfer yr adroddiad hwn wedi’i gwblhau eto. Mae’r adroddiad wedi’i aildrefnu ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Mawrth..

4.2 Gellir rhoi diweddariad llafar o'r sefyllfa ddiweddaraf wrth ystyried yr adroddiad rhaglen waith hon.

4.3 Mae adroddiad mis Mawrth 2024 ar ‘Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy’ wedi’i ddwyn ymlaen i gyfarfod heddiw i’r pwyllgor ei ystyried.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw’r adroddiad yn cyfrannu’n uniongyrchol at y Cynllun Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cost o ystyried y rhaglen gwaith i’r dyfodol a’r diweddariadau sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Ni nodwyd unrhyw risgiau penodol o ystyried yr adroddiad hwn. Mae adolygu’r rhaglen gwaith i’r dyfodol a gwybodaeth gysylltiedig yn nodwedd bwysig o swyddogaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011